Carwyn Jones AM/AC

Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ
Counsel General and Leader of the House

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Yr Arglwydd Dafydd Elis – Thomas AC
Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

30 Ebrill 2008

Annwyl Dafydd,

RHEOLIADAU DEUNYDDIAU PLASTIG AC EITEMAU MEWN CYSYLLTIAD Â BWYD (CYMRU) 2008

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu ei bod wedi dod yn angenrheidiol torri'r rheol 21 diwrnod er mwyn dod â Rheoliadau Deunyddiau Plastig ac Eitemau mewn Cysylltiad â bwyd i rym yng Nghymru yn unol â gweddill y DU. Gwnaed y Rheoliadau hyn ac fe'u cyflwynwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Ebrill 2008 a byddant yn dod i rym ar 1 Mai 2008.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi ar waith Gyfarwyddeb y Comisiwn Ewropeaidd 2007/19/EC ac yn gwneud diwygiadau i restr y Gymuned Ewropeaidd o fonomerau a awdurdodwyd a sylweddau cychwynnol eraill a geir yn Atodiad II i Gyfarwyddeb 2002/72/EC; yn ogystal â'r rhestr anghyflawn o ychwanegion yn Atodiad III. Cemegyn cyfansawdd, organig yn bennaf, yw monomer, sy'n cynnwys moleciwlau syml. Cynhwysir sylweddau newydd yn y diwygiad yn ogystal â diwygio'r cofnod ar gyfer y rhai presennol yn dilyn asesiad risg gan Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA).

Caiff y newidiadau i'r rhestrau hyn o sylweddau eu gwneud o bryd i'w gilydd pan fo Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop wedi adolygu barn a roddwyd eisoes neu wedi dyroddi barn newydd ar ddefnyddio sylwedd yn ddiogel. Y farn hon sy'n sefydlu faint o sylwedd penodol y dichon person ei gymryd yn feunyddiol drwy gydol ei oes heb beri niwed i'w iechyd. Caiff y barnau hyn eu defnyddio gan y Comisiwn Ewropeaidd fel seiliau dros gynigion sydd i'w cytuno ag Aelod-wladwriaethau'r UE.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Ffôn * Tel 029 2082 8055
Ffacs * Ffacs 029 2089 8475
Correspondence.Carwyn.Jones@Wales.gsi.gov.uk

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)
Printed on 100% recycled paper

Yn benodol, mae'r Gyfarwyddeb yn darparu ar gyfer terfynau newydd ar ddefnyddio plastigion penodol, gan gynnwys olew ffa soia wedi'i epocsideiddio (ESBO) a rhai phthalatau ac yn gosod terfynau ymfudiad ar eu cyfer. Cemegion cyfansawdd o'r cemegyn asid phthalitig yw phthalatau, ac fe'u defnyddir fel sylweddau a ychwanegir at blastigion i'w gwneud yn fwy hyblyg. Mae'r Gyfarwyddeb hefyd yn diwygio Cyfarwyddeb y Cyngor 85/572/EEC, sy'n gosod y rhestr o efelychyddion sydd i'w defnyddio ar gyfer profi ymfudiad cyfansoddion deunyddiau plastig sy'n dod i gysylltiad â bwyd, drwy gyflwyno ffactor gostwng braster (FRF), sy'n rhoi gwell amcan o ba mor agored yw'r defnyddiwr i sylweddau sy'n ymfudo i fwyd brasterog.

Mae'r Gyfarwyddeb hefyd yn rhoi eglurhad clir o'r term *'plastic multi-layer'* ac yn gwahaniaethu rhyngddo â ' *plastic functional barriers'*, gan ddarparu ar gyfer defnyddio'r olaf i helpu i ostwng ymfudiad sylweddau islaw terfyn ymfudiad penodol. Rhoddir eglurhad pellach ar gasgedau metal mewn caeadau a gwneir yn amlwg eu bod wedi'u cwmpasu gan Gyfarwyddeb 2002/72/EC; ac mae'n rhoi amser i gynhyrchwyr wneud cais am werthusiad o ychwanegion penodol a ddefnyddiwyd. Mae'r Gyfarwyddeb ddiwygio yn dirymu'r ataliad cyfredol ar y defnydd o azodicarbonamid fel chwythydd mewn plastigion sy'n dod i gysylltiad â bwyd ac yn hytrach yn ei wahardd yn llwyr. Cemegyn organig a elwir E927 yw azodicarbonamid. Fe'i defnyddir fel ychwanegyn mewn bwyd neu fel cannydd mewn blawd, ond fe'i defnyddir hefyd wrth gynhyrchu plastigion ffôm. Ar hyn o bryd mae'n ddarostyngedig i waharddiad dros dro. Bydd y Rheoliadau hyn yn rhoi ar waith waharddiad llwyr ar ei ddefnyddio yn y DU.

Mae'r Gyfarwyddeb hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddatganiadau o gydymffurfiaeth a'r tystysgrifau cydymffurfio hynny dystio i'r cyfyngiadau ac/neu i'r manylebion sy'n gymwys iddynt. Mae'r Gyfarwyddeb hefyd yn rhoi'r dyddiad pan ganiateir gosod nwyddau sy'n cydymffurfio â gofynion y Gyfarwyddeb ddiwygio ar y farchnad a'r dyddiadau pan na chaniateir o hynny ymlaen gynhyrchu nwyddau nad ydynt yn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb yn y Gymuned Ewropeaidd na'u mewnforio yno.

Cynhaliwyd dau ymgynghoriad ffurfiol ar y cynigion gyda phartïon â buddiant yng Nghymru o Hydref 2007 hyd 29 Ionawr 2008 ac o Chwefror 2008 hyd 28 Mawrth 2008, yn eu trefn. Cynhaliwyd yr ail ymgynghoriad er mwyn sicrhau fod rhanddeiliaid yng Nghymru wedi cael cyfle i wneud sylwadau ar fewnosod gweddill darpariaethau trosiannol y Gyfarwyddeb ddiwygio, sy'n rhoi'r dyddiadau pan ganiateir gosod nwyddau sy'n cydymffurfio â gofynion y Gyfarwyddeb ddiwygio ar y farchnad, 1 Gorffennaf 2008, a'r dyddiadau pan waherddir o hynny ymlaen gynhyrchu nwyddau nad ydynt yn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb yn Y Gymuned Ewropeaidd na'u mewnforio yno, 1 Mai 2008.

Cyhoeddwyd Cyfarwyddeb y Comisiwn Ewropeaidd 2007/19/EC yn y Cyfnodolyn Swyddogol (OJ) ar 12 Ebrill 2008 ac mae'n ofynnol o dan Gyfraith Ewrop i Aelod-wladwriaethau drosi darpariaethau'r Gyfarwyddeb hon a'u rhoi ar waith erbyn 1 Mai 2008. Bydd Rheoliadau cyfochrog yn dod i rym yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar 1 Mai 2008. Gallai peidio â gwneud y ddeddfwriaeth yng Nghymru ddod i rym ar yr un dyddiad arwain at gyhuddiadau o gyfaddawdu diogeledd iechyd cyhoeddus i ddefnyddwyr yng Nghymru. Byddai hefyd yn peri dryswch i gynhyrchwyr gan y byddai rheolau gwahanol yn ymwneud â phlastigion sy'n dod i gysylltiad â chynhyrchion bwyd yn gymwys i Gymru ac a fyddai yn gymwys i weddill y DU. Felly, er mwyn sicrhau cysondeb gorfodaeth ar draws y DU ac i sicrhau fod defnyddwyr yng Nghymru yn cael yr un lefel o warchodaeth gyhoeddus rhag bwyta bwyd sy'n cynnwys cemegion a ddefnyddir i gynhyrchu deunyddiau ac eitemau sy'n dod i gysylltiad â bwyd (megis sylweddau a allai fod yn wenwynig, yn fwtagenaidd, sy'n golygu bod modd iddynt newid gwybodaeth enetig ffisegol a chemegol organeb a pheri cancr a newid felly i genhedlu) â defnyddwyr mewn rhannau eraill o'r DU, mae'n

angenrheidiol torri'r rheol 21 diwrnod er mwyn i'r Rheoliadau ddod i rym yng Nghymru ar 1 Mai 2008.

Oherwydd amseriad yr ail ymgynghoriad, a hyd a natur technegol y Rheoliadau (mae yn yr Atodlen oddeutu 17,000 o eiriau a byddai'n cymryd rhwng 4 a 6 wythnos i'w cyfieithu), ac oherwydd ei bod yn angenrheidiol cyflwyno'r Rheoliadau yng Nghymru erbyn 1 Mai 2008, barnodd y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol na fyddai'n rhesymol ymarferol eu gwneud yn ddwyieithog.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi bod yn destun Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae Memorandwm Esboniadol wedi'i baratoi hefyd, sy'n cynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ac mae hwn wedi'i gyflwyno, ynghyd â'r Rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Dr Dai Lloyd, Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ac at Anna Daniel, Clerc y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth.

Yn gywir